**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 13 GORFFENNAF am 7.30YH**

**1. Yn bresennol**: Y Cyng Jenny Jones (Cadeirydd), Meinir James (Cofnodydd), Eifion Jones, Nicola Jones, Rheinallt Jones, Janet Knott, Shan Rees, Elfyn Williams

**Ymddiheuriadau**:, Viv Davies a'r Cynghorydd Sir Tyssul Evans

**2 Datganiadau Diddordeb**: Mae gan y Cynghorwyr Jenny Jones, Elfyn Williams, Eifion Jones, Meinir James, Janet Knott, Shan Rees, Rheinallt Jones, Viv Davies a Nicola Jones gollyngiad i drafod, ymateb a phleidleisio ar gynlluniau Fferm Solar Heol Ddu.

Mae'r Cynghorydd Philip Davies wedi datgan gwrthdaro o fuddiannau yn ymwneud a'r mater i'w drafod ac, yn unol â pholisiau'r cyngor, ni fydd yn bresennol nac yn cymryd rhan yn y drafodaeth na'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae gwrthdaro o fuddiannau hefyd gan Glerc y Cyngor ac ar gais y Cyngor Cymuned ni fydd yn bresennol nac yn cymryd rhan yn y drafodaeth na'r broses gwneud penderfyniadau ynglŷn a'r mater dan sylw.

**3 Cyfranogiad gan y Cyhoedd**: Nid oedd aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**4 Ceisiadau**

a) **derbyniwyd gan PEDW**
**CAS-03952-H9R8G4** - Adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu trydan ffotofoltäig solar ('fferm solar') gan gynnwys seilwaith a datblygiad ategol cysylltiedig, mynediad adeiladu dros dro a mannau gosod, a gwelliannau tirwedd ac amgylcheddol - Parc Solar Heolddu, Maesmawr a Fferm Treforris Fawr, Glanyfferi, Sir Gaerfyrddin, SA17 5YD

Cafwyd trafodaeth lawn a thrylwyr ar y cais uchod a'r cynigion diweddaraf ar gyfer y prosiect. Ystyriwyd yn llawn effaith y prosiect ar gymuned ac amgylchedd yr ardal o fewn Cyngor Cymuned Llandyfaelog.

Cytunwyd bod y Cyngor yn cyflwyno datganiad ymateb i PEDW yn gwneud cais i wrthod y cais cynllunio ar sail y canlynol:

- pryder y Cyngor ynghylch effeithiau andwyol y cynnig, yn enwedig oherwydd ei faint a diwydiannu parhaol tua 81.8 hectar (200 erw) o dir amaethyddol cynhyrchiol (24.09 hectar ohono o fewn ardal Cyngor Cymuned Llandyfaelog).
- y niwed i gymeriad y dirwedd, y pwysau ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a'r effeithiau ar fwynderau'r cymunedau cyfagos.

- bod y prosiect yn groes i bolisïau cynllunio o fewn Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, Polisi Cynllunio Cymru a *Dyfodol Cymru*.

Cytunwyd hefyd y dylai datganiad y Cyngor i PEDW gynnwys y pwyntiau canlynol:

- cydnabod barn y Cyngor o’r angen i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy er mwyn mynd i’r afael â newid hinsawdd a gwella’r seilwaith ynni.
- barn y Cyngor y dylid gwneud hyn, lle bynnag y bo’n ymarferol, drwy ddefnyddio tir a ddatblygwyd eisoes (tir llwyd) neu dir diwydiannol, neu drwy osod seilwaith solar ar doeau adeiladau amaethyddol a masnachol presennol, yn hytrach na thrwy ddiwydiannu tir amaethyddol cynhyrchiol heb ei ddatblygu (tir glas), fel a gynigir yn y cais hwn.
- er bod y Cyngor yn cefnogi’r trosglwyddiad i ynni adnewyddadwy, nid yw o’r farn y dylai unryw ddatblygiad osgoi cydymffurfio gyda pholisiau cynllunio o fewn Cynllun Datblygu Sir Gaerfyrddin a Pholisi Cynllunio Cymru.

Cytunwyd y byddai drafft o’r ymateb i PEDW, yn cynnwys y pwyntiau uchod, yn cael ei ddosbarthu i bob cynghorydd (ag eithrio Cyng. Philip Davies) cyn ei gyflwyno i PEDW cyn y dyddiad cau ar 27 Gorffennaf 2026.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.